



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 48  
HYDREF 2012

Heb os nac onibai bydd Dydd Llun, y 1af o Hydref 2012 wedi'i serio ar feddyliau pobl Machynlleth a'r ardal am flynyddoedd lawer am mai dyma'r diwrnod y cipiwyd April Jones wrth iddi chwarae ar gefn ei beic nid nepell o'i chartref. Nid oes geiriau digonol ar gael i ddisgrifio ein teimladau am ddiflaniad y ferch fach hynod dlos a oedd ond yn bum mlwydd oed.

Mewn ymateb i'r anfadwaith fe ddaeth cannoedd ar gannoedd o bobl gyffredin o bell ac agos i fod yn rhan o'r gwaith i geisio dod o hyd iddi. Bu Heddlu'r De a'r Gogledd yn cynorthwyo Heddlu Dyfed Powys ac yn ogystal fe ddaeth asiantaethau'r Bad Achub, Gwylwyr y Glannau, y Gwasanaeth Tân, Timau Achub Mynydd ac adrannau arbenigol yr heddlu i helpu. Clywyd sŵn sawl hofrennydd hefyd yn chwilio'r tir o'r awyr. Yn nhref Machynlleth, fe ddaeth rhai ynghyd i gynnal gwylnos yn yr Eglwys leol; cynnig lluniaeth i'r gwirfoddolwyr yn y Ganolfan Hamdden; dosbarthu posteri a lluniau o April a rhif cyswllt yr heddlu ac i glymu rhubanau pinc o gwmpas y dref fel arwydd o'r gobaith y byddent yn dod o hyd iddi yn fyw.

Hawliodd y drychineb brif benawdau'r newyddion a'r papurau newydd ers bore dydd Mawrth a phawb yn dyheu am gael gwybod bod April Jones wedi cael ei chanfod yn fyw ac yn ddiogel. Disgynnodd newyddiadurwyr a chamerau teledu dirifedi ar Fachynlleth er mwyn adrodd am y datblygiadau diweddaraf. Ond, hyd yn hyn, ni ddaeth yr un newyddion calonogol, ac yn ôl yr heddlu, pylu wnaeth y gobaith o'i chanfod yn fyw.

Yn sicr mae'r digwyddiad wedi siglo tref Machynlleth i'r gwraidd ac fe fydd yn gadael ei ôl am flynyddoedd lawer. Mae'r drychineb hefyd wedi ein hatgoffa o'r potensial sydd gan yr hil ddynol i gyflawni'r troseddau mwyaf creulon ac ofnadwy a hynny nid yn un o ddinasoedd mawrion ein gwlad ond yma, mewn ardal wledig yng Nghanolbarth Cymru.

I ganol byd fel hwn, sydd yn medru bod mor greulon, daeth Iesu atom i fyw yn ein plith ac i rannu yn ein holl brofiadau o boen, galar a thristwch. Ni wnaeth i'r digwyddiadau erchyll yma ddiflannu ond fe ddaeth i sefyll gyda phob un sy'n wynebu y profiadau mwyaf anodd fel diflaniad April Jones. Mae yno gyda'r teulu ar stâd Bryn-y-Gog yn rhannu yn eu dagrau a'u tristwch.

Gwyddom nad oes geiriau digonol i ddisgrifio ein teimladau a go brin bod yna eiriau digonol ar gael i gysuro'r teulu. Ond ein gweddi yw y bydd Duw yn ei bresenoldeb yn cynnal breichiau ei mam a'i thad, ei brawd a'i chwaer a gweddill y teulu yn eu hunllef dirdynol ac yn amgylchynu April, pa le bynnag y mae, â chynhesrwydd a thynnerwch ei gariad dwyfol.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

## CALENDR MIS HYDREF 2012

Cyhoeddwr y Mis: Robert Dobson	Organydd y Mis Ceris Gruffudd	
7 Hydref 10.30yb; 2.30yp	Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri. Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun Mervyn a Sue
14 Hydref 10.30yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog	
21 Hydref 10.30yb 2.30y	Clwb Sul o dan arweiniad Eleri. Oedfa Bregethu: Gweinidog	Gofal y Te: Dafydd ac Elen
28 Hydref 10.30yb	Oedfa Bregethu: Y Parchg Peter Thomas	
7 Tachwedd 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Sandra

### I'CH DYDDIADUR

- 10 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp  
11 Hydref :Noson Agoriadol Clwb CIC yn Ffestri'r Garn am 7yh o dan arweiniad Eleri Pierce Barder.  
17 Hydref: Cymdeithas y Penrhyn: Leusa Llywelyn ar drywydd T. Ifor Rees, Ffestri Horeb am 7.30yh  
24 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys: Horeb yn gyfrifol am weini.  
24 Hydref : Noson Pwdin a Phaned yn Ffestri Horeb am 6.30yh  
30 Hydref: Cylch Darllen y Beibl, Ffestri Horeb am 7.30yh  
1 Tachwedd: Cyfarfodydd Hanner Blyneddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhen-y-bont, Llandysul  
5 Tachwedd: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol: Eglwys San Paul: 12.00-1.30yp

### Lloffion

Cydymdeimlwn yn ddwys â Linda Griffiths a'r merched ar golli mam a mam-gu annwyl iawn.

Dymuniadau gorau i Lynne Hughes sydd yn mynd i weithio yn Kuwait am gyfnod.

Dymuniadau gorau i Mr Victor Bolt sydd wedi symud i'r Coach House, Plas Cwmcynfelin.

Croeso adref i Mrs Connie Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol): Cynhelir Noson Agoriadol Clwb CIC ar nos Iau, 11eg Hydref am 7yh yn Ffestri'r Garn o dan arweiniad Eleri Barder, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gydenwadol Eglwys Gogledd Ceredigion. Croeso i ieuenctid blwyddyn 6 yn ogystal ag ieuenctid oed uwchradd.

Rhaglen y Gymanfa Ganu 2012-13: Mae copïau o Raglen Cymanfa Ganu 2012-3 ar gael gan Ceris; pris £1.35

Gatiau Horeb: Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi bod gatiau Horeb wedi cael eu paentio yn ystod y misoedd diwethaf. Diolch yn fawr i William am y gymwynas hon.

Oedfa Ddiolchgarwch: Diolch i Aled Pickard, Cymorth Cristnogol am ei anerchiad pwrpasol ac i bawb a ddaeth ynghyd i'r oedfa. Diolch yn fawr i Mair am hyfforddi'r Parti Canu, i Ceris am gyfeilio ac i Sue am offrymu'r weddi. Diolch i Glenys T, Mairwen, Mona a Sandra am harddu'r capel â'r blodau. Cyfanswm y casgliad i Cymorth Cristnogol oedd £50-00.

Noson Pwdin a Phaned: Cynhelir Noson Pwdin a Phaned yn y festri ar nos Fercher, 24ain Hydref am 6.30yh. Dewch i fwynhau pwdin blasus ar ôl cael eich swper adref. Os hoffech gyfrannu pwdin rhowch wybod i Sandra erbyn nos Lun, 22ain Hydref. Trefnir adloniant ysgafn i ddilyn. Cyfraniadau tuag at achos da.

Gair y Dydd: Os hoffech gael Gair y Dydd pob chwarter (£7 am y flwyddyn) cysylltwch â Ceris cyn Tachwedd 1af.